## Credais mai ffŵl ydoedd – Herod

**Darllen Luc 23:1–12**

Credais mai ffŵl ydoedd.
Pam cerdded i'r fagl a osododd y Phariseaid iddo?
Pam derbyn cusan y bradwr?
Pam bod yn ddistaw,
pan allai gwadiad syml achub ei fywyd?

Dim ond ffŵl allai wneud camgymeriadau fel yna,
felly penderfynais fanteisio ar ei ffolineb.
Penderfynwyd ei wisgo fel brenin
ac ymgrymu o'i flaen yn wawdlyd,
gan ddatgan ein teyrngarwch.
'Tyrd yn dy flaen,' meddem,
'rho i ni arwydd,
dangos i ni wyrth!'

Roeddem yn chwerthin o'i hochr hi
nes bod y dagrau'n llifo lawr ein gruddiau.
Ond pe baem yn onest,
nid chwerthin roeddem o dan yr wyneb,
ond rhyfeddu,
arswydo.
'Sut hynny?' rwy'n eich clywed yn gofyn.
'Beth a ddywedodd? Beth a wnaeth?'

Dyna'r peth –
ni ddywedodd yr un gair,
ni wnaeth yr un dim,
dim ond sefyll yno'n dawel,
a derbyn popeth a daflwyd ato yn urddasol.
Wrth iddo sefyll yno,
yn gadarn ac yn ddi-droi'n-ôl,
gwyddwn nad oedd wedi disgyn i unrhyw fagl
na cholli ei gyfle i ddianc.

Rhagwelodd y cyfan,
y dioddefaint a'r gwrthodiad.
Nid damwain oedd y prawf,
nid camgymeriad anffodus,
ond rhan o bwrpas na allwn ei amgyffred.
Dyna'r pryd y gwelais wacter fy mywyd fy hun.

Ceisiais ei anwybyddu,

a chymryd arnaf nad oeddwn ei angen,
ond doedd dim modd osgoi'r gwirionedd.
Hwyrach na allwn fod wedi ei achub o'i dynged y diwrnod hwnnw –
ond gallai ef fod wedi fy achub i;
collais fy nghyfle oherwydd fy mod yn ofni'r canlyniadau.
Anfonais ef i ffwrdd,
ac fe'i hoeliwyd ef i'r groes,
dioddefodd farwolaeth erchyll.
Ond mi wn i un peth erbyn hyn:
nid ef oedd y ffŵl y diwrnod hwnnw –
ond fi!

**Gweddi:**
Arglwydd,
y mae dy ffyrdd yn ymddangos i ni weithiau yn ffolineb –
ffordd aberth a hunan ymwadu,
ffordd cariad yn wyneb casineb,
ffyddlondeb yn wyneb anffyddlondeb.
Yng ngolwg y byd y mae pregethu Crist wedi ei groeshoelio yn ffolineb,
ond i ni amlygiad o'th nerth a'th ddoethineb ydyw,
mynegiant rhyfeddol o'th ras achubol.
Dysg i ni ddangos ein diolchgarwch, nid ar air yn unig,
ond drwy ddilyn dy ffordd,
a dangos y parodrwydd i fod yn ffyliaid er mwyn Crist.